Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Waunfawr

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Waunfawr yn ysgol hapus, deuluol a chroesawgar. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i greu ethos gofalgar, Cymreig a diogel lle mae staff a disgyblion yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. Mae gofal a pharch yn treiddio trwy'r ysgol ac mae'r berthynas waith gefnogol rhwng y staff a'r disgyblion yn adeiladu hyder ac yn eu cefnogi i fwynhau eu cyfnod yn yr ysgol yn fawr iawn. Maent yn hapus i'w mynychu, yn ymddwyn yn dda, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae naws Gymreig gryf yn bodoli yn yr ysgol gyda nodwedd amlwg i ddarparu ystod o brofiadau gwerthfawr gyda phwyslais clir ar hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u milltir sgwâr, a hanes a thraddodiadau Cymru. Mae hyn yn dwysáu eu balchder o'u hysgol a'r gymuned ehangach ac yn creu ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar gwricwlwm cyfan. Mae gan ddisgyblion lais cryf ym mywyd yr ysgol ac maent yn mwynhau'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Maent yn ffynnu trwy gyfrannu at amrywiaeth o gynghorau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cymhelliant cryf, diddordeb chwilfrydig yn eu dysgu, ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Er hyn, ar adegau, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i benderfynu drostynt eu hunain sut i ymateb i weithgareddau'n gynyddol annibynnol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a chefnogol sy'n rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol. Caiff gefnogaeth gref gan staff ymroddedig sy'n cydweithiol â'i gilydd yn dda fel tîm, ac yn rhannu cyfrifoldebau yn synhwyrol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol.

# Argymhellion

**A1** **Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith, ac ymateb i weithgareddau dysgu yn gynyddol annibynnol**

**A2** **Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth yn amserol er mwyn iddynt wybod beth i’w wneud i wella a datblygu eu gwaith ymhellach**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Waunfawr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 87 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 13.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 15.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 75.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/04/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/06/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.